

**Swyddfa Comisiynydd Yr  
Heddlu a Thoseddu Gwent**

---

# **Deall Y Sbardunau**

**Y Gydberthynas rhwng Bod yn Agored i  
Niwed, Troseddoldeb a Chamfanteisio ar Blant**



# Cynnwys

## **Trosolwg Y Partneriaid Cysylltiedig Cwmpas a Methodoleg Themâu Cyffredin**

- 1. Nodweddion Allweddol Plant**
  
- 2. Trawma yn Amgylchedd y Cartref**
  - 2.1. Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod
  - 2.2. Bod yn Dyst i Gam-drin Domestig Gartref
  - 2.3. Plant sydd wedi bod mewn Gofal
  
- 3. Heriau mewn cysylltiad ag Addysg**
  - 3.1. Patrymau mewn Presenoldeb
  - 3.2. Patrymau mewn Ymddygiad
  - 3.3. Gwaharddiadau o'r Ysgol
  - 3.4. Anghenion Lleferydd, Iaith a Dysgu Ychwanegol
  
- 4. Troseddoldeb a Chamfanteisio**
  - 4.1. Patrymau Troseddu
  - 4.2. Cyfnodau Coll
  - 4.3. Camfanteisio
  - 4.4. Dylanwad Cyfoedion

## **Casgliad Atodiadau**

## Trosolwg

**Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r canfyddiadau a gafwyd o ymchwiliad i'r ffactorau cymhleth ac sy'n rhyngblethu sy'n sbarduno cysylltiad plant â throsteddoldeb a chamfanteisio.**

Cynhaliwyd y broses ymchwilio mewn partneriaeth rhwng Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsteddu Gwent, Cyngor Dinas Casnewydd, Heddlu Gwent a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Yn sgil pryder cenedlaethol cynyddol ynglŷn â'r gydberthynas rhwng gwaharddiadau o'r ysgol a chyfranogiad plant mewn trosteddau wedi hynny, cynhaliodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsteddu Gwent asesiad tystiolaeth cyflym i ddeall y mater hwn ar lefel leol.

Roedd tystiolaeth gref yn awgrymu bod y materion a nodwyd yn genedlaethol yn bresennol yng Ngwent hefyd.

Fodd bynnag, canfu'r ymchwiliad hefyd nad oedd gwaharddiadau o'r ysgol o reidrwydd yn ffactor achosol ar gyfer trosteddoldeb, ond yn hytrach eu bod nhw'n dangos cyfres o wendidau sy'n cynyddu cysylltiad â throstedd a chamfanteisio.

Yn fwy penodol, awgrymodd yr ymchwiliad fod plant sydd wedi eu gwahardd neu sydd mewn perygl o gael eu gwahardd o'r ysgol yn rhan o rwydwaith agored i niwed, sy'n cynnwys Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, Anghenion Addysgol Arbennig a phrofiad o fod mewn gofal.

Penderfynwyd felly y dylid datblygu ymhellach y ddealltwriaeth o brofiad plant o'r sbectwm agored i niwed cyfan hwn a pha waith y gellid ei wneud o safbwynt ymyrraeth gynnar ac atal. Rhannwyd yr ymchwiliad hon â Bwrdd Partneriaeth Strategol y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid ar gyfer Casnewydd, lle penderfynwyd archwilio'r canfyddiadau gyda charfan benodol o blant.

## Y Partneriaid Cysylltiedig

**Hwyluswyd cyfarfodydd y grŵp gorchwyl a gorffen rhwng y partneriaid gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsteddu Gwent, a fu'n cynnal cyfarfodydd dros gyfnod o bedwar mis.<sup>1</sup>**

Yn dilyn proses yr ymchwiliad, cytunodd partneriaid y byddai Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsteddu Gwent yn llunio adroddiad sy'n cyflwyno canfyddiadau'r grŵp. Mae'r partneriaid a oedd yn rhan o'r ymchwiliad hwn fel a ganlyn:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed
- Heddlu Gwent
- Ysgol Uwchradd Llanwern
- Gwasanaeth Addysg Casnewydd
- Gwasanaeth Diogelu Casnewydd
- Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Casnewydd
- Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsteddu Gwent
- Gwasanaethau Cymorth Ieuencid Casnewydd

Roedd y garfan a ddewiswyd ar gyfer yr ymchwiliad yn cynnwys tri ar ddeg o blant o Gasnewydd a nodwyd trwy ddata trosteddu a rannwyd gan Heddlu Gwent.

Hoffem ddiolch i'r holl bartneriaid a oedd yn gysylltiedig â'r ymchwiliad hwn am eu hymrwymiad i gydweithio ac i rannu gwybodaeth.

Mae ymdrechion partneriaid yn ystod y broses hon yn dyst i werth a phwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth ac maent yn dangos eu hymrwymiad i wella canlyniadau a gwasanaethau i blant.

## Cwmpas a Methodoleg

### Cafodd egwyddorion cyffredinol yr ymchwiliad eu llywio gan ddull 'plant yn gyntaf a throeddwy'r yn ail' y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

Trwy ddilyn y dull hwn, rhoddodd yr ymchwiliad bwyslais ar feithrin dealltwriaeth o'r digwyddiadau bywyd arwyddocaol ar gyfer pob plentyn a ddaeth o flaen ymddygiad troeddol, yn hytrach na chanolbwyntio ar yr ymddygiad hwn ar wahân. Fodd bynnag, er mwyn sefydlu carfan ar gyfer ymchwil, roedd angen dechrau'n gyntaf gyda data troeddu a gweithio'n ôl er mwyn mapio cyswllt ehangach â gwasanaethau partner. Ar gais Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throeddu Gwent, lluniodd tîm Data a Pherfformiad Heddlu Gwent adroddiad yn nodi tri ar ddeg o blant a oedd â'r ymddygiadau troeddu mwyaf cyffredin yng Nghasnewydd rhwng 2018 a 2019. Pennwyd amlder y troeddu hwn gan lefel gyswllt pob plentyn â Heddlu Gwent yn ystod y cyfnod penodedig. Dylid nodi nad yw pob troedd ar gyfer pob plentyn wedi cael canlyniad ffurfiol. Ymhellach, mae llawer o'r plant hyn yn hysbys i'r heddlu fel dioddefwyr camfanteisio yn ogystal â thrwy gyfnodau unigolion coll. Ar ôl derbyn adroddiad Heddlu Gwent, roedd partneriaid yn awyddus i nodi ymgysylltiad pob plentyn â gwasanaethau. Cytunwyd felly i ddefnyddio'r grŵp o dri ar ddeg o blant fel carfan ar gyfer yr ymchwiliad hwn.

Ar ôl adolygu hyn, penderfynwyd bod pob un o'r tri ar ddeg o blant wedi bod mewn cysylltiad â phob asiantaeth bartner rywbyrd yn ystod eu bywydau. Felly, roedd yn bosibl cael gafael ar wybodaeth y gwasanaeth ar gyfer pob plentyn yn y garfan. Rhoddodd y data hyn ddirnadaeth amrywiol o fywydau'r plant, gan ganiatáu i'r grŵp adeiladu cronolegau gweledol yn olrhain cysylltiad pob plentyn â'r gwasanaeth. Roedd y cronolegau gweledol hyn yn dangos themâu, tueddiadau a chydberthnasau posibl allweddol rhwng digwyddiadau allweddol a newidiadau mewn ymddygiad. Daw llawer o'r wybodaeth a gesglir ac a gyflwynir yn yr adroddiad hwn o gofnodion hanesyddol.

Mewn rhai achosion, mae'r cofnodion hyn yn dyddio'n ôl sawl blwyddyn. Felly, dylid cydnabod y gallai'r gwasanaethau a drafodir fod wedi datblygu neu esblygu eu harferion ers yr adeg y sonnir amdanynt isod. Nid yw'r adroddiad hwn yn bwriadu adolygu gwasanaethau. Yn hytrach, mae'n canolbwyntio'n benodol ar y garfan o blant a'u profiadau. Fodd bynnag, lle bo meysydd i'w gwella neu fylchau'n parhau, darperir argymhellion ar gyfer mynd i'r afael â'r pryderon hyn yn y casgliad isod.

Mae pob asiantaeth yn defnyddio cronfa ddata wahanol i gadw gwybodaeth bersonol am y defnyddwyr gwasanaeth. Rhestrir isod y systemau a ddefnyddiwyd gan bob asiantaeth i gynhyrchu'r wybodaeth a ddefnyddiwyd yn yr ymchwiliad hwn:

- System cofnodi troeddau ar-lein Heddlu Gwent (NICHE)<sup>2</sup>
- System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru Gwasanaethau Diogelu/Plant<sup>3</sup>
- Gwybodaeth Proffil Asesu Bod yn Agored i Niwed<sup>4</sup>
- Systemau Rheoli Gwybodaeth Ysgolion mewn Addysg<sup>5</sup>
- Cronfa ddata ChildView<sup>6</sup>

Yn ystod y broses o gasglu data, roedd bylchau data a gwybodaeth nodedig yng nghofnodion ysgol gynradd y plant. Felly, cynhaliodd cydweithwyr addysg gyfweiliadau dilynol ag ysgol gynradd pob plentyn er mwyn sefydlu darlun cynhwysfawr o hanes addysg pob plentyn.

## Themâu Cyffredin

### Trwy ddadansoddi gwybodaeth partneriaid, nodwyd pedair thema a gododd dro ar ôl tro.

Y themâu hynny yw - 'nodweddion allweddol', 'trauma yn amgylchedd y cartref', 'addysg' a 'chamfanteisio a throeddoldeb'. Archwilir y themâu hyn yn fanylach isod. Er nad yw wedi ei gynnwys fel thema gyffredin i'w thrafod yn yr adroddiad hwn, roedd tlodi'n thema ymhlyg yn aml yn yr wybodaeth a ddadansoddwyd yn ystod yr ymchwiliad. Roedd deuddeg o'r tri ar ddeg

o blant yn y garfan yn byw mewn ardaloedd y nodwyd eu bod yn ddifreintiedig iawn.<sup>7</sup> Er bod hyn yn ddangosydd cryf o dlodi, nid yw'n derfynol. Nid yw'n glir ychwaith i ba raddau y dylanwadodd tlodi ar gysylltiad y plant â throseddoldeb a cham-fanteisio. Felly, nid yw tlodi wedi ei gynnwys fel thema gyffredin oherwydd na allai'r wybodaeth sydd ar gael gefnogi'r un lefel o ddadansoddiad a wnaed ar draws y themâu eraill. Wrth fwrw ymlaen â chanfyddiadau'r ymchwiliad, bydd angen gwneud rhagor o waith i benderfynu sut y mae profiadau o dlodi yn llywio neu'n dylanwadu ar bryderon ymddygiadol mewn plant ac, os oes angen, pa ymyriadau sydd fwyaf effeithiol wrth fynd i'r afael â'r mater hwn. Fodd bynnag, wrth ddarllen yr adroddiad hwn, dylid cofio bod tlodi'n bresennol gyda mwyafrif y plant yn y garfan, boed hynny yn eu cartrefi, gyda'u cyfoedion neu yn eu cymunedau.

## 1. Nodweddion Allweddol

### **Archwiliodd y grŵp gorchwyl a gorffen yr holl wybodaeth a oedd ar gael am y tri ar ddeg o blant a ddewiswyd ar gyfer yr ymchwiliad.**

Bechgyn oedd mwyafrif y plant yn y garfan (deg o dri ar ddeg). Roedd rhai gwahaniaethau nodedig yn y profiadau o gamfanteisio troseddol rhwng bechgyn a merched. Dadansoddir y gwahaniaethau hyn yn fanwl yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Oedran cyfartalog y plant yn yr ymchwiliad oedd pymtheg mlwydd oed. Gan ddadansoddi hyn fesul rhywedd, oedran cyfartalog y tair merch yn y garfan oedd pymtheg, ac oedran cyfartalog y bechgyn oedd pedwar ar ddeg. Gwnaeth partneriaid waith i amcangyfrif oedran 'tarfu' cyfartalog pob plentyn. Defnyddiwyd y term 'tarfu' i ddiffinio'r adeg pryd dechreuodd ymddygiad heriol y plant waethygu. Yr oedran cyfartalog pryd dechreuodd ymddygiad y merched sy'n tarfu ar eraill waethygu oedd tair ar ddeg mlwydd oed, a dechreuodd ymddygiad y bechgyn waethygu pan oeddent yn un ar ddeg oed.

## 2. Trawma yn Amgylchedd y Cartref

### **Roedd amodau byw gwael, cam-drin domestig ac anallu rhieni i ddiogelu eu plant ymhlith y prif heriau a brofwyd yn amgylchedd y cartref.**

Roedd mwyafrif y plant yn dioddef amodau byw gwael. Canfu'r ymchwiliad lawer o adroddiadau gan weithwyr cymdeithasol yn datgan bod amodau byw yn 'anaddas'. Ym mwyafrif yr achosion, roedd nifer o adroddiadau gan weithwyr proffesiynol yn nodi diffygion yng ngallu rhieni i ddiogelu a gosod ffiniau o fewn cyd-destunau teuluol. Yn yr adran ganlynol, amlinellir yn fanylach bryderon penodol ynghylch trawma yn amgylchedd y cartref.

### 2.1. Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod

Gall profiadau negyddol mewn bywyd cynnar adael unigolion yn agored i nifer o wendidau.

Dengys ymchwil fod plant â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn dioddef straen cronig a all arwain at ymddygiad treisgar, gorbryder ac ymddieithrio yn yr ysgol.

Roedd rhieni'n gwahanu, cam-drin domestig, camddefnyddio sylweddau a mathau eraill o esgeulustod yn ymddangos yn aml yn adroddiadau o brofiadau plentyndod cynnar mwyafrif y plant yn y garfan. Roedd y profiadau niweidiol cylchol a nodwyd yn yr astudiaeth hon yn cynnwys cam-drin plant (esgeulustod yn bennaf), camddefnyddio sylweddau gan rieni a cham-drin domestig.

Roedd pob plentyn wedi dod i gysylltiad â'r gwasanaethau i blant ar ryw adeg yn ystod eu bywydau. Profodd mwyafrif y plant hyn gam-drin rhwng teuluoedd a ymestynnodd mewn rhai achosion i fathau eithafol o niwed a cham-drin. Er yr ymddengys mai esgeulustod yw'r cam-drin mwyaf cyffredin, roedd adroddiadau oddi wrth wasanaethau'n cynnwys achosion o gam-drin rhywiol a chorfforol hefyd. Amlinellir isod astudiaeth achos sy'n dangos y mathau cyffredin o gam-drin a brofwyd gan blant yn y garfan.



## Astudiaeth Achos 1

Un ar bymtheg oed yw Plentyn 12. Dechreuodd arddangos arwyddion allweddol o ymddygiad sy'n tarfu ar eraill yn ddeg oed. Fodd bynnag, mae heriau a phrofiadau niweidiol yng nghartref y teulu yn ymestyn yn ôl i flynyddoedd cynnar y plentyn. Ar ôl i bryderon sylweddol ynghylch diogelu teuluol gael eu nodi, aeth Plentyn 12 i ofal yn dair ar ddeg oed. Ceir cydberthynas rhwng yr adeg pan aeth Plentyn 12 i ofal a gwaethygiad mewn ymddygiad sy'n tarfu ar eraill a gostyngiad ym mhresenoldeb yn yr ysgol. Gorffennodd plentyn 12 ei addysg yn Bridge Achievement Centre (BAC) gyda chyfradd bresenoldeb o 18%.<sup>8</sup> Cafodd Plentyn 12 nifer o waharddiadau ysgol, gan gynnwys gwaharddiad parhaol o un ysgol uwchradd. Yn dair ar ddeg oed, roedd yn hysbys bod Plentyn 12 yn gwerthu heroin. Trwy broses y Mekanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol, cafodd Plentyn 12 ganlyniad cadarnhaol gan gydnabod ei fod wedi ei gamfanteisio'n droseddol.

Mae'r astudiaeth achos yn dangos sut y gallai trawma yn gynnar mewn bywyd gael effaith niweidiol sylweddol ar gyfnodau pontio allweddol i blant. Ymysg llawer o ffactorau eraill, roedd camddefnyddio sylweddau yn y teulu agos yn debygol o fod yn sbardun a arweiniodd at y plentyn hwn yn cymryd rhan mewn camfanteisio troseddol yn ddiweddarach. Nodwyd bod dod i gysylltiad â chamddefnyddio sylweddau yn ystod plentyndod cynnar yn bryder ar gyfer

pedwar plentyn arall yn y garfan hefyd. Nodwyd trawma yn ystod plentyndod mewn achosion eraill hefyd. Fodd bynnag, mae'n debygol nad yw graddau llawn y trawma hwn wedi eu hadrodd yn gyflawn oherwydd rhai mân gyfyngiadau yn yr wybodaeth a gasglwyd ar gyfer yr ymchwiliad. Fel y dangosir yn yr astudiaeth achos isod, gall trawma bywyd cynnar chwarae rhan bwysig yn y broses o ffurfio'r ymddygiadau sy'n tarfu ar eraill a arddangosir gan blant wrth iddynt ddatblygu.

## Astudiaeth Achos 2

Daeth Plentyn 8 i'r DU yn anghyfreithlon yn 2017. Yn dilyn marwolaeth ei dad oherwydd bom car a'i fam yn cael ei herwgipio, aed â Phlentyn 8 i gartref plant amddifaid yn Rwmania, a threuliodd gyfnod byr yno cyn dod i'r DU mewn lori. Codwyd Plentyn 8 yng Nghasnewydd a'i roi mewn gofal maeth ar unwaith. Yn dilyn methiant wyth lleoliad maeth mewn deg mis oherwydd ymddygiad ymosodol, rhoddwyd Plentyn 8 yn Cambridge House, sef cartref preswyl i blant.

Er gwaethaf presenoldeb isel, ymgysylltodd Plentyn 8 yn dda â'r ysgol. Roedd yn ymgysylltu'n gadarnhaol â rhai gweithwyr allweddol hefyd. Fodd bynnag, dros amser, dirywiodd presenoldeb Plentyn 8 yn yr ysgol. Yn ddiweddarach, cafodd Plentyn 8 ganlyniad cadarnhaol drwy broses y Mekanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol.

Oherwydd bod Plentyn 8 yn cael ei gamfanteisio ar gyfer llafur yr oedd hyn. Ceir gwybodaeth hefyd sy'n awgrymu bod Plentyn 8 yn ymwneud â gweithgareddau trosglwyddo cyffuriau. Mae Plentyn 8 mewn lleoliad annibynnol bellach ac nid yw'n mynychu'r ysgol mwyach.

Mae'r ddwy astudiaeth achos sydd wedi'u cynnwys yn yr adran hon yn cynnig mewnwelediad i'r ffyrdd y gall Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod gael effaith andwyol ar fywydau plant. Ar draws y garfan, gwelwyd bod profiadau niweidiol wedi digwydd ym mwyafrif

yr achosion. Yn lleiafrif yr achosion lle na fu Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, nodwyd gwendidau eraill, fel anawsterau lleferydd a dysgu.<sup>9</sup> Fodd bynnag, o ystyried bod Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod wedi dod i'r amlwg ym mwyafrif yr achosion, mae'n rhesymol

tybio bod trawma bywyd cynnar yn ffactor a gyfrannodd at yr ymddygiadau sy'n tarfu ar eraill a arddangoswyd gan blant yn y garfan. Cefnogir y dybiaeth hon gan gorff ymchwil sylweddol ynghylch Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod, sy'n awgrymu y gall trawma ffurfio ymddygiadau a chanlyniadau bywyd unigolion yn sylweddol.<sup>10</sup> Mae cryn dipyn o waith eisoes wedi ei wneud i hyfforddi'r heddlu a phartneriaid yng Ngwent ynghylch sut i adnabod Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod. Mae'r dystiolaeth a awgrymwyd gan yr ymchwiliad hwn yn dangos y dylai pob gwasanaeth ystyried unrhyw sefyllfa yn ei chyfanrwydd er mwyn deall ac ymateb i Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentynod mewn amrywiaeth o leoliadau, boed hynny gartref, yn yr ysgol neu'r gymuned ehangach.

## 2.2. Bod yn Dyst i Gam-drin Domestig Gartref

Fel yr awgrymwyd yn yr adran flaenorol, roedd plant a fu'n dyst i gam-drin domestig gartref yn fwy tebygol o arddangos ymddygiadau sy'n

tarfu ar eraill. Roeddent hefyd yn fwy tebygol o gael eu hadrodd fel unigolion coll ac o fod â phresenoldeb is yn yr ysgol.

Nodwyd y cysylltiad rhwng cam-drin domestig a'r tri phryder hyn mewn nifer o'r achosion a adolygwyd.

Yn yr ysgol, roedd ymddygiad sy'n tarfu ar eraill, gwaharddiadau cyfnod penodol a gostyngiad mewn presenoldeb yn dilyn cam-drin domestig gartref, a nodwyd ymddygiad gwrthgymdeithasol a chyfnodau coll yn y gymuned ehangach.

Ar wahân i'r ymchwiliad hwn, nodwyd trwy Operation Encompass fod pump o'r plant yn y garfan yn dioddef cam-drin domestig.<sup>11</sup>

Mae'r astudiaeth achos isod yn dangos sut y gallai effaith bod yn dyst i gam-drin domestig parhaus gartref ddylanwadu ar batrymau eraill o gam-drin, trais a chamfanteisio, ac arwain atynt.

## Astudiaeth Achos 3

Dwy ar bymtheg oed yw Plentyn 9. Cyn symud i Gasnewydd, roedd Plentyn 9 ar y Gofrestr Amddiffyn Plant o dan y categori 'esgeulustod' mewn sir arall. Yn bedair ar ddeg oed, ar ôl bod yn dyst i nifer o achosion o gam-drin domestig yng nghartref y teulu, gostyngodd presenoldeb Plentyn 9 yn yr ysgol i 55%. Bu cynnydd mewn ymddygiad ymosodol a chamddefnyddio sylweddau yn ystod y cyfnod hwn hefyd. Adroddwyd ar sawl achlysur fod Plentyn 9 ar goll, gan gynnwys o'r ysgol. Yn 2017, rhoddwyd Plentyn 9 yn Bridge Achievement Centre (BAC). Yn dilyn rhagor o achosion o gam-drin domestig, cafodd Plentyn 9 ragor o waharddiadau o'r ysgol. Dilynwyd y gwaharddiadau hyn gan achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y gymuned ehangach, wrth gymdeithasu â chyfoedion yn arbennig. Mae cofnodion yn dangos cyfres o anghydfodau rhwng Plentyn 9 a'i gymdogion, gyda Plentyn 9 yn ymddwyn yn ymosodol ac yn gwneud bygythiadau. Nodwyd bod cysylltiad â chyfoedion yn ffactor risg allweddol o ran cynyddu amlygiad Plentyn 9 i gamfanteisio troseddol. Yn fwy diweddar, roedd Plentyn 9 yn rhan o ddigwyddiad cam-drin domestig, gan fod yn gyflawnwr yn y digwyddiad.

Mae'r astudiaeth achos uchod yn rhoi trosolwg cryno o'r patrymau ymddygiad sy'n dilyn cam-drin domestig parhaus gartref.

Mae'r rhain yn cynnwys dirywiad cyffredinol mewn presenoldeb yn yr ysgol, cynnydd mewn gwaharddiadau o'r ysgol, camfanteisio

a chyflawni cam-drin domestig. Yn gyson â'r canfyddiadau hyn, mae'r astudiaeth achos isod yn amlygu hefyd sut y gall profiadau fel bod yn dyst i gam-drin domestig gael effaith andwyol ar blentyn.

## Astudiaeth Achos 4

Pedair ar ddeg oed yw Plentyn 10. Roedd arwyddion allweddol o ymddygiad sy'n tarfu ar eraill yn amlwg pan oedd Plentyn 10 yn un ar ddeg oed. Mae Plentyn 10 wedi cael ei wahardd o'r ysgol nifer o weithiau ac mae ei bresenoldeb yn isel yn gyson. Yn y Cyfnod Sylfaen yn yr ysgol, roedd y staff o'r farn bod Plentyn 10 yn ddisgybl 'amlwg' a oedd yn cymryd yr awenau'n aml neu'n gweithredu fel arweinydd yn ei grŵp cyfoedion. Yng Nghyfnod Allweddol 2 uchaf, aeth ymddygiad Plentyn 10 yn fwy heriol. Erbyn diwedd ei amser yn yr ysgol gynradd, roedd presenoldeb Plentyn 10 yn 85%, gyda phatrwm o absenoldeb yn digwydd ar ddydd Llun a dydd Gwener bob wythnos. Yn dilyn sawl achos o gam-drin domestig gartref, gwaethygodd ymddygiad Plentyn 10. Yn y pen draw, arweiniodd hyn at wahardd Plentyn 10 o'r ysgol, gyda defnydd o gyffuriau ac alcohol yn ffactor allweddol y tu ôl i'r gwaharddiad hwn. Yn ystod ei gamau cynnar yr ysgol uwchradd, roedd Plentyn 10 yn ymwneud â throseddoldeb lefel isel. Cynyddodd yr ymddygiadau troseddol hyn o ran difrifoldeb, drwy ddylanwadu cyfoedion. Ar hyn o bryd, mae Plentyn 10 yn mynd i Bridge Achievement Centre (BAC), lle mae ganddo gyfradd presenoldeb o 8.8%.

Mae gwerth nodi y gostyngodd presenoldeb Plentyn 10 yn yr ysgol ar ddiwrnodau penodol o'r wythnos gan amlaf (dydd Llun a dydd Gwener). Mae'n bosibl bod y patrwm hwn o absenoldeb o'r ysgol wedi gorgyffwrdd â digwyddiadau gartref. Felly, mae gwerth ystyried pa waith y gellid ei wneud pan fo plant sy'n profi cam-drin gartref yn absennol yn rheolaidd yn dilyn digwyddiad gartref. Gallai'r gwaith hwn gynnwys ffurfioli prosesau er mwyn cysoni data Operation Encompass â data presenoldeb ysgolion, gan gydnabod y gall patrymau absenoldeb fod yn ddangosyddion gwendidau posibl.

### 2.3. Plant sydd wedi bod mewn Gofal

O'r tri ar ddeg o blant yn y garfan, roedd pump ohonynt wedi eu rhoi yng ngofal yr awdurdod lleol. Arweiniodd ffactorau amrywiol a oedd rhyngblethu at y plant hyn yn mynd i mewn i'r system ofal.

Fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod mynd i mewn i'r system ofal wedi cael effaith niweidiol sylweddol ar bob un o'r pum plentyn. Ym mhob achos, roedd y rhai a aeth i mewn i'r system ofal yn arddangos arwyddion tarfu ac o fod yn fwy agored i niwed yn fuan wedi hynny.

## Astudiaeth Achos 5

Dwy ar bymtheg oed yw Plentyn 3 a gorffennodd ei addysg yn Bridge Achievement Centre (BAC) gyda chyfradd bresenoldeb o 4.5%. Yn ystod amser Plentyn 3 yn yr ysgol gynradd, nid oedd unrhyw bryderon amlwg ynglŷn ag ymddygiad. Fodd bynnag, nodwyd bod gan Plentyn 3 anawsterau dysgu cymedrol ac felly cafodd gymorth ychwanegol. Ym Mlwyddyn 6, aeth ymddygiad Plentyn 3 yn heriol. Canfuwyd bod y gwaethygiad hwn mewn ymddygiad yn cyd-daro â chyfnodau o gyswllt â'i fam. Aeth Plentyn 3 i mewn i'r system ofal yn 2016 oherwydd problemau camddefnyddio sylweddau ei fam. Bu sawl cyfnod coll o'i gartref preswyl i blant ac o'r ysgol ar ôl i Blentyn 3 gael ei roi yn y system ofal. Ar ôl mynd i mewn i'r system ofal, gostyngodd presenoldeb Plentyn 3 yn BAC i 69%, ar amserlen lai. Mae adroddiadau'r heddlu'n nodi cysylltiad rhwng Plentyn 3 a rhywun y mae ei enw'n hysbys am Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant. Ceir pryderon ychwanegol ynghylch amlygiad Plentyn 3 i Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant o ganlyniad i gymdeithasu â chyfoedion yn ei gartref preswyl i blant lle ceir gwybodaeth bod plant eraill mewn perygl o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant. Rheolir Plentyn 3 o dan Operation Quartz ac mae wedi cael atgyfeiriad Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth (MARAC) oherwydd ymddygiad drwy orfodaeth ac sy'n rheoli gan ei bartner.



Mae'r tair merch yn y garfan hon wedi bod mewn gofal ac wedi eu rhoi mewn llety â chymorth. Ymddengys bod mynd i mewn i'r system ofal wedi bod yn sbardun dros waethygiad mewn ymddygiad ar gyfer y tair merch. Arweiniodd at eu hamlygu i gamfanteisio hefyd. Yn yr un modd, daeth y bechgyn a aeth i mewn i'r system ofal yn ddiodefwr camfanteisio troseddol yn fuan drwy gael eu recriwtio ar gyfer gweithgareddau trosglwyddo cyffuriau. Roeddent hefyd wedi dechrau cymryd rhan mewn mathau eraill o ymddygiad troseddol difrifol. Cafodd bron bob plentyn yn y garfan hon ei symud sawl gwaith o leoliadau gofal. Mae hyn yn cynnwys lleoliadau

dros dro, ac mewn un achos, lleolwyd y plentyn y tu allan i'r Sir am gryn amser. Aeth plentyn arall i ddeg lleoliad maeth yn ystod cyfnod o wyth mis. Mae sylwadau oddi wrth bartneriaid a'r patrymau ymddygiad sy'n gysylltiedig â'r symudiadau hyn yn dangos bod hyn yn drafferthus i'r plant ar y cyfan. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gall symud o wahanol leoliadau gofal effeithio ar les meddyliol ac emosiynol plant, yn ogystal â'u cysylltiad â'r ysgol a'u hymddygiad. Mae'r astudiaeth achos isod yn dangos yr amryw darfu ar fywyd y plentyn dros gyfnod cymharol hir, gyda phryderon ynghylch cyfnodau pontio a symud lleoliadau.

## Case Study 6

Dwy ar bymtheg oed yw Plentyn 5. Dechreuodd arwyddion o ymddygiad sy'n tarfu ar eraill ddod i'r amlwg pan oedd yn dair ar ddeg oed. Fodd bynnag, mae pryderon am Blentyn 5 yn ymestyn yn ôl i'r adeg pan oedd yn bum mlwydd oed, yr oedran pryd y cafodd ei roi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Wynebodd Plentyn 5 heriau sylweddol yng nghartref y teulu ac yna bu'n mynd i amryw o leoliadau gofal. Sefydlogodd ymddygiad Plentyn 5 yn yr ysgol a'r gymuned ehangach ar ôl ei roi gydag aelod o'r teulu estynedig. Yn un ar ddeg oed, chwalodd y trefniant gofal hwn, ac aeth Plentyn 5 i mewn i'r system ofal ar ôl hynny. Yn yr ysgol gynradd, roedd Plentyn 5 yn ymgysylltu'n dda mewn grŵp 'anogaeth' bach ac roedd ganddo berthynas gadarnhaol ag athro. Yn ystod yr ysgol gynradd, roedd arwyddion efallai na fyddai Plentyn 5 yn integreiddio'n llawn i gymuned ehangach yr ysgol. Hefyd, roedd adegau pan oedd Plentyn 5 yn arddangos pryderon ymddygiad lefel isel. Mae cofnodion yn dangos bod Plentyn 5 wedi ei chael yn anodd wrth bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Digwyddodd y pontio hwn ochr yn ochr â'r adeg pan aeth Plentyn 5 i mewn i'r system ofal. Wrth symud o wahanol leoliadau gofal, dirywiodd presenoldeb Plentyn 5 yn yr ysgol ac yn ddiweddarach, cafodd waharddiadau cyfnod penodol. Dirywiodd ymddygiad Plentyn 5 yn sylweddol yn dilyn gwyliau haf yr ysgol. Cyn y cyfnod gwyliau hwn, cafodd prif ofalwr Plentyn 5 ei dderbyn i'r ysbyty. Ar ôl i'r Plentyn ddychwelyd i'r ysgol, cynyddodd y pryder ynglŷn â chyfnodau coll a gwaharddiadau. Yn dilyn marwolaeth ei brif ofalwr, gwaethygodd ymddygiad Plentyn 5. Roedd y gwaethygiad hwn yn cynnwys hunan-niwed. Hefyd, nodwyd bod Plentyn 5 mewn perygl o gamfanteisio rhywiol drwy ei breswylfa a'i gysylltiadau personol. Arweiniodd y risg hon at ganlyniad cadarnhaol drwy broses y Mekanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol. Gorffennodd plentyn 5 ei addysg yn Bridge Achievement Centre (BAC) ar amserlen lai gyda chyfradd bresenoldeb o 81%. Mae Plentyn 5 mewn lleoliad gwaith bellach ac mae'n dal i gael cefnogaeth oddi wrth yr awdurdod lleol pan fo hynny'n bosibl.

Mewn sampl fach o achosion, symudodd rhai plant yn y garfan sawl gwaith o ran ysgol a lleoliadau gofal. Gellir gweld effaith y symudiadau hyn drwy ostyngiad mewn presenoldeb a chynnydd mewn gwaharddiadau o'r ysgol. Yn yr adran isod, ymchwiliir ymhellach i'r pryderon ehangach ynghylch ymgysylltiad y plant â'r ysgol. Fodd bynnag, cyn cwblhau'r adran hon, mae'n bwysig pwysleisio'r cynnydd o ran dod i gysylltiad

â throeddoldeb a chamfanteisio a wynebir yn gyson gan blant a roddir yn y system ofal. Ar ôl iddynt gael eu lleoli mewn cartrefi preswyl i blant, dechreuodd yr ymddygiadau sy'n tarfu ar eraill a'r ymddygiadau pryderus waethygu'n gyflymach. Ar sail y canfyddiadau hyn, mae'n hanfodol ystyried yn fwy i bennu'r cymorth sydd ar gael i blant er mwyn lliniaru'r risgiau amlwg sy'n bresennol i blant sydd wedi bod mewn gofal sy'n agored i niwed.

### 3. Heriau mewn cysylltiad ag Addysg

#### Ym mwyafrif yr achosion, roedd plant y garfan yn ei chael yn anodd ar ôl pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Gellir gweld enghraifft o'r ffordd y mae'r anhawster hwn yn amlgu ei hun yn achos un plentyn, pan ostyngodd ei bresenoldeb o 90% yn yr ysgol gynradd i 60% ar ôl iddo fynd i'r ysgol uwchradd.

Gwelwyd gostyngiadau amlwg hefyd ym mhresenoldeb y plant a gwaethygiad mewn ymddygiadau sy'n tarfu ar eraill yn yr ysgol yn dilyn achosion o gam-drin neu drais gartref. Mae'n ymddangos y rhoddir gwaharddiadau o'r ysgol yn hwyr mewn patrwm eang o ymddygiad heriol. Ym mwyafrif yr achosion, rhoddwyd gwaharddiadau ar adeg pan oedd presenoldeb wedi gostwng yn sylweddol. Mae gwerth nodi hefyd fod gan bob plentyn yn y garfan anghenion dysgu a gofynion lleferydd ac iaith penodol.<sup>12</sup> Mae'r nifer uchel o anghenion dysgu yn ogystal â gofynion lleferydd ac iaith yn y garfan yn cydfynd â'r duedd genedlaethol lle mae plant sy'n wynebu'r heriau hyn yn cael eu gorgynrychioli mewn ystadegau gwahardd.<sup>13</sup> Bydd yr adrannau canlynol yn archwilio'n fanylach y materion addysg cylchol allweddol a welir yn y garfan.


#### 3.1. Patrymau mewn Presenoldeb

Mae canlyniadau'r astudiaeth yn amlinellu

ffactorau achosol posibl amrywiol dros y gostyngiad ym mhresenoldeb y plant yn yr ysgol. Yn aml, gostyngodd presenoldeb yn yr ysgol ar ôl profiadau gofidus neu drawmatig gartref. Fel yr amlygir uchod, byddai bod yn dyst i gam-drin domestig yn arwain at bresenoldeb is yn yr ysgol yn aml.

Roedd achosion ychwanegol o bresenoldeb is yn cynnwys mynd i mewn i Ddarpariaeth Amgen ynghyd â gwyliau hanner tymor ac eraill o'r ysgol. Yn benodol, gwelwyd presenoldeb isel yn yr ysgol yn dilyn hanner tymor yn aml ymhlith bechgyn y nodwyd bod eu grwpiau cyfoedion yn peri pryder.

Ar gyfer bron pob un o'r plant yn y garfan hon, roedd presenoldeb yn yr ysgol gynradd o fewn y lefel ddisgwyliedig o 95% neu uwch i raddau helaeth. Cafodd sampl fach gyfnodau presenoldeb o oddeutu 90% yn yr ysgol gynradd, ond nid ystyriwyd hyn yn absenoldeb parhaus. Yn wir, dim ond un plentyn oedd â chofnod presenoldeb a oedd yn bodloni'r trothwy ar gyfer absenoldeb parhaus yn yr ysgol gynradd. Fodd bynnag, ar ôl mynd i'r ysgol uwchradd, gostyngodd presenoldeb pob un o'r plant. I rai plant, gostyngodd y presenoldeb hwn yn sylweddol ar ôl y pontio o'r ysgol gynradd; ac i blant eraill, gellir olrhain gostyngiad mwy graddol yn ystod y flwyddyn academiaidd, gan ddechrau ym Mlwyddyn 7. Mae'r graff isod yn dangos y gostyngiad cyffredinol ym mhresenoldeb y garfan ar ôl pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.



Mae'r gostyngiad nodedig mewn presenoldeb rhwng dechrau Blwyddyn 7 a Blwyddyn 8 i'w weld yn y cyfnodau sy'n dilyn gwyliau ysgol o bythefnos neu fwy.

Ynghyd â'r patrwm hwn mewn presenoldeb, gwelodd gwyliau ysgol gynydd mewn ymddygiad sy'n tarfu ar eraill ac ymddygiad gwrthgymdeithasol hefyd.

Roedd y cynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol ochr yn ochr â phresenoldeb isel yn yr ysgol yn arbennig o amlwg o gwmpas cyfnodau gwyliau'r Nadolig, y Pasg a'r haf.

Fodd bynnag, dylid datgan bod y cynnydd hwn mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gyson â thueddiadau data ehangach a arsylwyd gan Heddlu Gwent, sy'n dangos bod tuedd i ymddygiad gwrthgymdeithasol gynyddu'n gyffredinol yn ystod y gwyliau hyn.

Felly, nid y cynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol yw'r pwynt allweddol yn yr arsylwadau hyn, ond yn hytrach y presenoldeb isel a ddeilliodd o hynny; yn hanfodol, mae'r canfyddiad hwn yn nodi fflachbwynt pan fo ymddygiad yn gwaethygu ynghyd ag adeg arwyddocaol yn llwybr nifer o blant tuag at ddechrau ymddieithrio.

Namyn un, roedd yr holl blant yn y garfan hon wedi eu hatgyfeirio i Bridge Achievement Centre (BAC), sef uned cyfeirio disgyblion yng Nghasnewydd.

Dangosodd mwyafrif y plant yn y garfan hon ostyngiad sylweddol mewn presenoldeb pan oeddent yn BAC, a oedd yn cyd-ddigwydd â chynnydd mewn cysylltiad â gweithgareddau troseddol ac amlygiad i gamfanteisio.


Mae'n rhaid pwysleisio bod y cysylltiad rhwng ymddygiad dirywiol y plant, amlygiad i gamfanteisio a phresenoldeb yn BAC yn un o gydbertynas yn hytrach nag achosiad.

Ar yr adeg hon yn eu bywydau, roedd y plant hyn yn wynebu heriau sylweddol a effeithiodd ar eu hymddygiad yn y pen draw ac a arweiniodd at waharddiadau o'r ysgol.

Er bod presenoldeb yn BAC yn gam arall ar eu llwybr tuag at y system cyfiawnder troseddol, mae'n bwysig cydnabod cyd-destun ehangach y gwendid y mae'r plant yn ei brofi.

Yn wir, digwyddodd llawer o ffactorau a gyfrannodd at hyn yr un pryd â symud y plant o addysg brif ffrwd.

Mae'r graff isod yn dangos presenoldeb cyffredinol y garfan yn yr ysgol gynradd, yr ysgol uwchradd (gan gynnwys ar ôl newid ysgol) ac yn ystod blwyddyn olaf eu haddysg.



Mae'r graff hwn yn awgrymu nifer o dueddiadau sy'n cyfiawnhau gwaith archwilio ychwanegol. Yn gyntaf, mae angen deall pam mae presenoldeb yn uwch yn yr ysgol gynradd ac yn y cyfnod cychwynnol ar ôl pontio i ysgol uwchradd newydd. Un rheswm dros y duedd hon yw y gallai'r gofal a'r sylw a ddarperir i blant yn yr ysgol gynradd ac ar ôl newid ysgol gynnig cymorth, gan weithredu fel ffactor amddiffynnol. Mae'r plant yn y garfan hon wedi profi heriau sylweddol yn eu hamgylcheddau cartref (teuluol ac anheuluol). Gallai presenoldeb a chefnogaeth oedolyn y gellir ymddiried ynddo yn yr ysgol gynradd ac ar ôl newid ysgol fynd i'r afael ag anghenion ychwanegol y plant hyn.

Dylid nodi hefyd y gostyngiad sylweddol mewn presenoldeb yn sgil newid ysgol, er gwaethaf y cynnydd ar y dechrau. Nid yw'n glir pam mae'r duedd hon yn digwydd, ond gallai fod yn rhannol gysylltiedig â'r cymorth a gynigir yn yr ysgol gynradd ac ar ôl newid ysgol. Mae ysgolion uwchradd yn rhoi mwy o annibyniaeth i blant, ac yn wahanol i'r ysgol gynradd, nid yw'r diwrnod ysgol yn cael ei dreulio ym mhresenoldeb un oedolyn cyson y gellir ymddiried ynddo. Mae newid ysgol yn debygol o ddarparu lefel ychwanegol o gymorth i blentyn wrth addasu a phontio i'w ysgol newydd. Unwaith eto, gallai'r cymorth hwn fod ar ffurf oedolyn y gellir ymddiried ynddo. Mae plant sydd â phrofiadau a heriau anodd gartref, fel y rhai sydd yn y garfan, yn debygol o elwa ar y cymorth penodol a roddir yn yr ysgol gynradd ac yn syth ar ôl newid ysgol. Ar sail canfyddiadau'r graff, gellir tybio bod effeithiau dileu'r cymorth hwn yn arwain at ostyngiad mewn presenoldeb. Mae'n bwysig pwysleisio bod angen profi'r tybiaethau hyn yn fwy cyn y gellir eu hystyried yn derfynol. Fodd bynnag, pe byddai'r dehongliad hwn yn gywir, bydd angen ystyried pa gymorth bugeiliol ychwanegol y gellir ei ddarparu i blant. Gallai'r cymorth hwn gynnwys darparu gweithiwr penodedig i weithredu fel oedolyn y gellir ymddiried ynddo i blant er mwyn eu cefnogi drwy gydol eu hamser yn yr ysgol gynradd ac uwchradd. Byddai'r gwaith hwn yn rhoi cysondeb i'r plant ac yn eu helpu i addasu i'r cyfnod pontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd.<sup>14</sup>

### 3.2. Patrymau mewn Ymddygiad

Roedd tuedd i fechgyn a oedd wedi cael profiad o gam-drin domestig gartref arddangos ymddygiadau treisgar yn yr ysgol ac yn y gymuned.

Cynyddodd gwaharddiadau ysgol hefyd yn sgil profiadau negyddol yn amgylchedd y cartref. Felly, roedd y plant hyn mewn mwy o berygl o gael eu gwahardd wrth i'w hymddygiad fynd yn fwy treisgar yn yr ysgol mewn ymateb i fod yn dyst i drais gartref. Gobeithir y bydd mentrau fel Operation Encompass yn helpu i liniaru'r perygl hwn, wrth i ysgolion gynyddu eu gwybodaeth am gyfnodau o gam-drin y mae plant yn cael profiad ohonynt ac wrth iddynt ymateb i'r ymddygiad a amlygir ganddynt yn unol â hynny.

Er y nodwyd lefel isel o ymddygiadau sy'n tarfu ar eraill yn gynnar yn yr ysgol gynradd, dechreuodd ymddygiadau mwy heriol ymddangos ym Mlwyddyn 5. Yn y flwyddyn hon, roedd yr ymddygiadau hyn yn arbennig o gyffredin ymhlith y bechgyn, ac roedd tuedd i'r merched eu harddangos ym Mlwyddyn 6.

Ar draws y garfan, arweiniodd y pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd at ymddygiad sy'n tarfu ar eraill gan fwyafrif y plant.

Mae'r astudiaeth achos isod yn adlewyrchu thema a gododd dro ar ôl tro i nifer o blant yn y garfan. I'r plant hyn, roedd tuedd i'w hymddygiad fod yn sefydlog yn yr ysgol gynradd. Gellir priodoli'r sefydlogrwydd hwn mewn ymddygiad yn yr ysgol gynradd i'r ffactorau amddiffynnol a gynigir gan ysgolion cynradd, fel y trafodir uchod (h.y. amgylchedd gofalgar a meithringar gydag un oedolyn cyson y gellir ymddiried ynddo).

Fodd bynnag, wrth i Blentyn 1 bontio i'r ysgol uwchradd, gwaethygodd yr ymddygiad sy'n tarfu ar eraill yn gyflym.

Dewisir yr astudiaeth achos hon i ddangos pa mor gyflym y newidiodd ymddygiadau ar ôl pontio, hynny yw adeg pan gollir llawer o'r ffactorau amddiffynnol sy'n bresennol yn yr ysgol gynradd.



## Astudiaeth Achos 7

Tair ar ddeg oed yw Plentyn 1. Dechreuodd arddangos arwyddion o darfu pan oedd yn un ar ddeg oed. Daeth Plentyn 1 i sylw'r gwasanaethau am y tro cyntaf yn 2018 ar ôl ymosod ar rywun. Prin yw'r wybodaeth sydd ar gael am Blentyn 1 cyn y digwyddiad hwn oherwydd ei fod wedi treulio ei fywyd cynnar mewn sir wahanol. Dim ond ym Mlwyddyn 6 yr aeth Plentyn 1 i'r ysgol gynradd, ac yn ystod y cyfnod hwnnw, roedd ei bresenoldeb a'i ymddygiad yn dderbyniol. Yn ystod ei gyfnod yn yr ysgol gynradd, roedd gan Blentyn 1 berthynas dda â'i athro a'i gyfoedion. Nid Saesneg oedd iaith gyntaf Plentyn 1, ac o'r herwydd, cafodd gymorth caffael iaith. Yn dilyn y cyfnod pontio i'r ysgol uwchradd, dechreuodd ei bresenoldeb ddirywio. Roedd y gostyngiadau mewn presenoldeb fwyaf amlwg ar ôl gwyliau hanner tymor yr ysgol. Roedd Plentyn 1 yn dyst i gam-drin domestig gartref. O amgylch y cyfnod hwn, dechreuodd gyflawni ymddygiad sy'n tarfu ar eraill a throsteddol. Yn sgil ymddygiad cynyddol heriol yn yr ysgol, atgyfeiriwyd Plentyn 1 i Bridge Achievement Centre (BAC). Gostyngodd ei bresenoldeb eto ar ôl ymuno â BAC. Yn ddiweddar, cafodd Plentyn 1 ganlyniad cadarnhaol drwy broses y Mekanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol. Rhoddwyd y canlyniad hwn er mwyn cydnabod bod Plentyn 1 yn cael ei ddefnyddio i werthu a dosbarthu cyffuriau. Cyn ei atgyfeirio i'r Mekanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol, roedd Plentyn 1 wedi ei adrodd ar goll dri deg a naw gwaith.

### 3.3. Gwaharddiadau o'r Ysgol

Yn y garfan, ymddygiad sy'n tarfu ar eraill oedd y rheswm dros fwyafrif y gwaharddiadau. Fodd bynnag, gwnaed rhai gwaharddiadau oherwydd ymddygiadau difrifol, fel ymosodiad corfforol a cham-drin geiriol. Bu sawl gwaharddiad ar ôl i blant gael eu hatgyfeirio i BAC. Gwnaed y gwaharddiadau hyn pan oedd ymddygiad y plant wedi gwaethygu'n sylweddol ac roedd troseddau a chysylltiad â chamfanteisio'n bryderon allweddol. Hefyd, roedd nifer o blant wedi eu gwahardd yn agos i'r adeg pan gawsant eu hadrodd ar goll. Unwaith eto, dylid ystyried hyn yn arwydd o'r risg o gamfanteisio, naill ai'n droseddol neu'n rhywiol. Roedd y pwynt pan gafodd y plant yn y garfan eu gwahardd yn amrywio rhwng y rhywiol, wrth i'r bechgyn gael eu heithrio'n iau na'r merched yn aml. Ym mwyafrif yr achosion, gostyngodd presenoldeb yn yr ysgol ar ôl gwaharddiad cyfnod penodol. Dim ond un plentyn yn y garfan a gafodd waharddiad parhaol o'r ysgol, gyda'r holl blant eraill yn cael gwaharddiadau cyfnod penodol o 5 diwrnod neu lai. Ar draws y garfan, nodwyd bod pob gwaharddiad o'r ysgol wedi digwydd o fewn cyfnod byr, yn hytrach na thros gyfnod hwy. Roedd y gwaharddiadau'n rhagflaenydd hefyd i gysylltiad y plant ag ymddygiad troseddol. Mae'r duedd hon yn awgrymu bod y

pwynt tyngedfennol pan fo ymddygiadau sy'n tarfu ar eraill yn gwaethygu nes cyrraedd pwynt troseddoldeb yn gyfnod crynodedig yn aml. Hynny yw, mae'r ymddygiadau sy'n arwain at waharddiad yn digwydd yn syth ar ôl ei gilydd cyn i'r plentyn ddechrau cymryd rhan mewn troseddau. Mae angen gwneud rhagor o waith i ddeall pam yr ymddengys fod y cynnydd hwn yn gwaethygu'n gyflym. Dylid paru'r gwaith hwn â rhagor o ymchwil er mwyn penderfynu pa ymyriadau ataliol y gellid eu mabwysiadu a phryd y dylid eu dechrau yn ystod y cyfnod pan fo ymddygiadau'r plentyn yn gwaethygu.

Mae'r astudiaeth achos isod yn enghraifft o natur ailadroddus y gwaharddiadau a gafodd y plant yn y garfan. Yn hanfodol, mae'n bwysig nodi bod yr ymddygiadau a arweiniodd at waharddiad cyntaf Plentyn 7 eisoes yn dod i'r amlwg yn yr ysgol. Ym mwyafrif yr achosion, dim ond ar ôl disbyddu'r holl ddewisiadau eraill sydd ar gael ar gyfer ymyriadau mewnol a gwaharddiadau o'r ystafell ddosbarth y rhoddir gwaharddiadau cyfnod penodol.

Felly, mae'r astudiaeth achos hon yn dangos bod angen clir i ystyried pa gymorth allanol ychwanegol y gellir ei ddarparu i blant er mwyn atal gwaharddiadau pan nad yw ymyriadau mewnol mewn ysgolion yn llwyddo.



## Astudiaeth Achos 8

Deuddeg oed yw Plentyn 7. Dechreuodd pryderon ynghylch ymddygiad Plentyn 7 ddod i'r amlwg pan oedd yn bump oed. Roedd presenoldeb Plentyn 7 yn isel (89%) yn gynnar yn yr ysgol gynradd ac awgrymodd y fam y gallai fod ag anawsterau dysgu.

Cafodd Plentyn 7 bymtheg ar hugain o waharddiadau o'r ysgol yn chwech oed. Dilynwyd hyn gan weithgareddau troseddol, a ddechreuodd pan oedd yn 11. Roedd y troseddau'n cynnwys difrod troseddol a lladrata. Nododd barn broffesiynol fod gan Blentyn 7 anghenion cymhleth a sgiliau cymdeithasol ac emosiynol cyfyngedig.

Mae teulu Plentyn 7 yn cael anawsterau ariannol a cheir amodau byw gwael yng nghartref y teulu. Ymddengys fod grŵp cyfoedion ehangach yn dylanwadu ar Blentyn 7. Mae aelodau eraill o'r grŵp cyfoedion hwn yn y garfan ar gyfer yr astudiaeth hon hefyd.

### 3.4. Anghenion Lleferydd, Iaith a Dysgu Ychwanegol

Nodwyd bod gan bob plentyn yn y garfan hon Anghenion Addysgol Arbennig. Roedd y mwyafrif ohonynt heb ddatganiad ond roeddent naill ai ar gam Gweithredu gan yr Ysgol neu Weithredu gan yr Ysgol a Mwy.<sup>15</sup> Roedd gan bedwar arall yn y garfan Gynlluniau Datblygu Unigol gyda Chyngor Dinas Casnewydd. Hefyd, roedd Anghenion Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu yn amlwg ym mhob plentyn yn y garfan bron.

Roedd angen cymorth caffael iaith ar dri phlentyn yn y garfan hon pan oeddent yn yr ysgol gynradd, oherwydd nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf. Yn yr achosion hyn, roedd arwyddion bod y plant yn ei chael hi'n anodd integreiddio ac ymgysylltu â chymuned yr ysgol.

Yn ystod y broses ymchwilio ar gyfer yr ymchwiliad hwn, adroddodd cydweithwyr yn y Gwasanaeth Cyfiawnder leuenctid fod mwyafrif eu hatgyfeiriadau yn cynnwys plant ag Anghenion Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu. Fodd bynnag, gall mynd i'r afael â'r materion hyn gyda phlant fod yn heriol, oherwydd y cydnabyddir yn eang fod anawsterau Anghenion Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu yn gofyn am ymyriadau pan fo'r plant yn iau er mwyn cyflawni datrysiad effeithiol.

Hefyd, ceir tystiolaeth gref sy'n awgrymu

bod plant ag Anghenion Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu yn mynd heb ddiagnosis yn aml cyn cyrraedd proses sgrinio'r Tîm Troseddau leuenctid, pan nodir eu hanghenion am y tro cyntaf.<sup>16</sup>

Mae canfyddiadau o'r fath yn dangos cyfleoedd a gollwyd ar gyfer ymyriadau a chymorth ychwanegol cyn i blant gymryd rhan mewn troseddu. Ystyriodd trafodaethau rhwng partneriaid a fu'n rhan o'r ymchwiliad hwn newidiadau i'r gwasanaethau a ddarperir i blant ag Anghenion Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu. Yng Nghasnewydd, roedd darpariaeth ganolog bwrpasol wedi bod ar gael i blant sy'n cael yr anawsterau hyn. Fodd bynnag, newidiwyd y gwasanaeth hwn i ddarpariaeth integredig mewn ysgolion, a arweiniodd at gyflwyno gwasanaeth a gomisiynwyd (SenCom) er mwyn hyfforddi staff ysgol i adnabod ac ymyrryd. Mae SenCom yn gwneud gwaith uniongyrchol hefyd gyda grwpiau ac unigolion sydd ag Anawsterau Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu

Mae'r astudiaeth achos isod yn enghraifft o un plentyn yn y garfan a oedd ag Anghenion Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu, ond dim gwendidau na ffactorau risg adnabyddadwy eraill. Dewisir yr astudiaeth achos hon i roi syniad o sut y gallai Anghenion Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu gyfrannu at gysylltiad plant ag ymddygiad troseddol, gan eu gwneud yn agored i gamfanteisio.

## Astudiaeth Achos 9:

Deunaw oed yw Plentyn 6 ac mae wedi gorffen yr ysgol bellach. Mae'n dod o ardal gefnog, heb unrhyw broblemau hysbys yng nghartref y teulu. Yn yr ysgol gynradd, roedd gan Plentyn 6 anawsterau lleferydd ac iaith, a heriau yn ymwneud â'i allu gwybyddol. Roedd Plentyn 6 yn dawel yn yr ysgol gynradd ac nid oedd ganddo lawer o ffrindiau. Trwy gydol ei amser yn yr ysgol gynradd, ni nodwyd unrhyw faterion ynghylch ymddygiad na chyrhaeddiad Plentyn 6. Yn yr ysgol uwchradd, roedd presenoldeb yn is, ond nid ystyriwyd hyn yn absenoldeb parhaus. Ni chafodd Plentyn 6 unrhyw waharddiadau o'r ysgol a gorffennodd addysg brif ffrwd yn 16 oed.

Er nad oedd fawr o arwydd o ymddygiad sy'n tarfu ar eraill yn ystod ei gyfnod yn yr ysgol a'i fywyd cynnar, mae Plentyn 6 yn y carchar am dair blynedd am feddiannu arf tanio ffug; cyn hyn cafodd ganlyniad cadarnhaol drwy broses y Mekanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol, a roddwyd oherwydd camfanteisio troseddol drwy weithgareddau trosglwyddo cyffuriau.

At ei gilydd, roedd y materion allweddol ynghylch hanes addysg y garfan yn ymwneud â phresenoldeb, ymddygiad, gwaharddiadau ac anghenion dysgu. Mae'n debygol bod y pryderon hyn yn rhyngblethu.

Fodd bynnag, fel y gwelir gyda Phlentyn 6, nid yw hyn yn wir bob amser a gall gwendidau a ffactorau risg unigol fod yn ddigon i arwain at ymddygiadau troseddol a cham-fanteisio.

Ac eto, yn amlach, roedd plant yn y garfan yn aml yn arddangos patrymau hir o ymddygiadau sy'n tarfu ar eraill, gan ymddieithrio'n raddol oddi wrth addysg. Erbyn i blant gael eu gwahardd o'r ysgol neu ddarpariaeth arall, byddent wedi cael nifer o waharddiadau mewnol er mwyn mynd i'r afael â'u hymddygiad a'i wella.

Fel y nodwyd eisoes, mae angen gwneud rhagor o waith i gadarnhau pa gymorth ychwanegol y gellir ei ddarparu i atal plant rhag cael eu gwahardd pan fo ymyriadau mewnol wedi eu disbyddu.

Gwelwyd mewn sawl achos ar draws y garfan fod plant a waharddwyd wedi dechrau ymgysylltu â throseddoldeb yn fuan wedyn, gan fod yn agored i gamfanteisio.

Bydd yr adran nesaf yn archwilio sut y mae'r ymddygiad troseddol a'r camfanteisio hwn wedi dod i'r amlwg yn y garfan.

## 4. Troseddoldeb a Chamfanteisio

### Roedd Heddlu Gwent yn adnabod pob plentyn yn y garfan hon.

Roedd natur cysylltiad y plant â'r heddlu yn cynnwys ymddygiad troseddol, cyfnodau coll a phryderon ynghylch camfanteisio. Roedd trafodaethau cychwynnol yn ystod yr ymchwiliad hwn yn canolbwyntio ar ymgysylltu parhaus â throseddoldeb. Fodd bynnag, wrth i'r broses ymchwilio ddatblygu, daeth cysylltiad â chamfanteisio yn thema ailadroddus ar draws y garfan. Yn wir, o'r tri ar ddeg o blant a ddewiswyd ar gyfer yr ymchwiliad, nodwyd bod deg naill ai wedi dioddef camfanteisio neu mewn perygl o gamfanteisio.

Mae'r adrannau isod yn archwilio'r canfyddiadau amrywiol a gafwyd o wybodaeth partneriaid sy'n ymwneud ag ymddygiad troseddol a chysylltiad â chamfanteisio.

#### 4.1. Patrymau Troseddu

Er nad oedd yn glir yn yr wybodaeth a ddarparwyd, roedd arwydd cryf bod rhai ymddygiadau troseddol yn cael eu gwahaniaethu yn ôl oedran a rhywedd. Ar draws y garfan, dechreuodd ymddygiad troseddol y plant waethygu pan oeddent yn dair ar ddeg a phedair ar ddeg oed. Fel y nodwyd eisoes, roedd tarfu ar ymddygiad,

gan gynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsteddoldeb, wedi ei grynhoi o amgylch gwyliau hanner tymor ac eraill o'r ysgol.<sup>17</sup> Amlygodd data a ddarparwyd gan Heddlu Gwent gynnydd nodedig mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ystod cyfnod gwyliau'r haf. Bechgyn mewn grwpiau o gyfoedion oedd yn cyflawni'r ymddygiadau trosteddol hyn i raddau helaeth. Efallai y disgwylir y byddai trosteddu'n cynyddu yn ystod y cyfnod hwn, pan fo'r strwythur a'r amgylchedd amddiffynnol a gynigir gan yr ysgol yn absennol i raddau helaeth. Oherwydd heriau gartref neu mewn lleoliad gofal, mae'n annhebygol bod plant yn y garfan wedi cael y cymorth a gynigwyd gan yr ysgol yn ystod y cyfnodau gwyliau. Yn absenoldeb y cymorth hwn, roedd y plant heb ddylanwadau cadarnhaol ac felly'n cymryd mwy o ran mewn ymddygiadau sy'n tarfu ar eraill. Ymddengys mai ymddygiad gwrthgymdeithasol a difrod trosteddol yw'r rhagflaenwyr mwyaf cyffredin i droseddu difrifol. Roedd merched yn y garfan yn aml yn ymwneud â throsteddu difrifol yn gynharach, ac roedd ymddygiad trosteddol y bechgyn yn cynyddu o ran difrifoldeb yn fwy graddol. Roedd trais a gyflawnwyd gan ferched wedi ei gyflawni gan y rhai a nodwyd eu bod yn ddiodefwr camfanteisio rhywiol. Fel arfer, roedd y trais hwn yn cael ei gyflawni yn erbyn merched eraill y mae gwybodaeth eu bod mewn perygl o gamfanteisio rhywiol, neu yn

eu cwmni. O'r canfyddiad hwn, ceir arwydd clir bod tuedd i blant sy'n agored i niwed gysylltu a chymdeithasu â'i gilydd fel cyfoedion. Mae'r gwendidau cyfunol yn y grwpiau cyfoedion hyn yn debygol o waethygu unrhyw faterion sylfaenol, gan amlygu eu hunain mewn sefyllfaoedd o drais gan gyfoedion yn erbyn cyfoedion, fel yr awgryma'r data.

## 4.2. Cyfnodau Coll

Adroddwyd am gyfnodau coll ar gyfer pob person ifanc yn y garfan namyn un. Dywedwyd bod rhai ohonynt wedi eu hadrodd ar goll dros hanner cant o weithiau, gydag un wedi ei adrodd ar goll dros 30 o weithiau mewn mis. Roedd digwyddiadau camfanteisio trosteddol a rhywiol yn gysylltiedig â chyfnodau coll mynych.

Mewn achosion yr adroddwyd ynndynt fod merched ar goll, roedd arwyddion fel arfer o gysylltiad â merched a oedd mewn perygl o gamfanteisio'n rhywiol ar blant neu ddynion hŷn a oedd yn hysbys am gyflawni trosteddau camfanteisio. I'r bechgyn yn y garfan hon, roedd cyfnodau coll yn gysylltiedig yn fynych â chamfanteisio trosteddol trwy weithgareddau trosglwyddo cyffuriau, gyda chyfoedion yn aml. Mae'r astudiaeth achos isod yn enghraifft o'r deinameg rhwng cyfnodau coll a chamfanteisio trosteddol.

## Astudiaeth Achos 10

Pedair ar ddeg oed yw Plentyn 2. Yn dair ar ddeg oed, dechreuodd Plentyn 2 arddangos ymddygiad sy'n tarfu ar eraill yn sylweddol. Roedd Plentyn 2 yn dyst i gam-drin domestig gartref pan oedd yn ifanc. Dyma pryd y tynnwyd sylw'r gwasanaethau at Plentyn 2 am y tro cyntaf. Cafodd Plentyn 2 ei waharddiad cyntaf yn dair ar ddeg oed ac ers hynny mae ei ymddygiad wedi gwaethygu. Yn yr ysgol gynradd, ffurfiodd Plentyn 2 berthynas dda â staff a chyfoedion ac ni arddangosodd unrhyw bryderon ymddygiadol. Fodd bynnag, roedd Cynllun Datblygu Unigol ar waith mewn cysylltiad â'i alluoedd dysgu. Dilynwyd digwyddiadau o darfu gartref gan gyfnodau coll. Mewn un mis yn unig, adroddwyd bod Plentyn 2 ar goll ugain o weithiau.

Ar ôl mynd i mewn i'r system ofal, gwaethygodd ymddygiad Plentyn 2 yn fwy. Dechreuodd Plentyn 2 arddangos arwyddion o gamfanteisio rhywiol a dechreuodd gymryd rhan mewn mathau difrifol o droseddoldeb yn fuan wedi hynny. Bryd hynny, gwaethygodd ei gyfradd presenoldeb yn yr ysgol a gwelwyd newidiadau yn ei breswylfa hefyd (Cambridge House a Forest Lodge).

Wrth adolygu ffynonellau'r atgyfeiriadau coll, roedd yn amlwg bod ysgolion wedi adrodd llawer o gyfnodau ac, yn benodol, Bridge Achievement Centre (BAC). Mae'r nifer uwch o gyfnodau coll a adroddwyd gan BAC yn gyson â'r canfyddiadau bod presenoldeb plant yn gostwng yn sylweddol ar ôl iddynt bontio o addysg brif ffrwd i ddarpariaeth arall.

Gyda'i gilydd, mae'r wybodaeth hon yn dangos bod y gostyngiad cynyddol mewn presenoldeb yn cyd-fynd â risg uwch o gamfanteisio troseddol neu rhywiol. Hynny yw, wrth i ymddygiad sy'n tarfu ar eraill waethygu ac wrth i'r broses o ymddieithrio o'r ysgol fynd rhagddi, cynyddodd cysylltiad y plant â chamfanteisio hefyd. Adroddwyd nifer o gyfnodau coll gan Cambridge House a Forest Lodge hefyd, dau gartref preswyl i blant yng Nghasnewydd. Roedd y cyfnodau hyn yn cynnwys plant y nodwyd eu bod mewn perygl o gamfanteisio. Adroddwyd hefyd fod plant yn y garfan ar goll yn dilyn achosion o gam-drin yng nghartref y teulu, yn enwedig ar ôl iddynt fod yn dyst i drais.

### 4.3. Camfanteisio

Ym mhob digwyddiad pan fu amheuaeth o gamfanteisio, canfuwyd bod plant wedi bod yn gysylltiedig ag unigolion risg uchel hysbys eraill, gan gynnwys cyflawnwyr a dioddefwyr camfanteisio. Pennodd y broses ymchwilio ddau batrwm cylchol ar gyfer camfanteisio. Yn y cyntaf, roedd tystiolaeth gref yn awgrymu bod camfanteisio'n deillio o gysylltiad plant â chyfoedion a oedd hefyd mewn perygl o gamfanteisio. Mewn cartrefi preswyl i blant y gwnaed y cysylltiad hwn â chyfoedion gan amlaf. Yn yr ail, cododd camfanteisio ym mhob achos pan oedd cymorth teuluol yn absennol. I lawer o blant yn y garfan, tynnwyd sylw at eu statws o fod mewn perygl o gamfanteisio yn fuan ar ôl iddynt gael eu rhoi i mewn i'r system ofal. Mae'r duedd hon yn peri pryder o gofio bod y plant hyn wedi eu rhoi mewn gofal er mwyn eu diogelu. O gofio mai sampl fach o ran maint y mae'r garfan yn ei hadlewyrchu, mae angen gwneud rhagor o waith i ddeall a adlewyrchir y cysylltiad rhwng profiad o fod mewn gofal a chamfanteisio yn y boblogaeth fwy o blant sydd mewn gofal.

Dangosodd gwybodaeth a ddarparwyd gan bartneriaid raniad clir ar sail rhywedd rhwng camfanteisio troseddol a chamfanteisio rhywiol. Yn nifer llethol yr achosion, roedd y bechgyn yn y garfan yn agored i gamfanteisio troseddol, ac roedd y merched yn agored i gamfanteisio rhywiol. Roedd y tair merch yn y garfan wedi dioddef camfanteisio rhywiol.

Ac yn gyson â'r canfyddiadau uchod unwaith eto, cynyddodd eu cysylltiad â chamfanteisio rhywiol ar ôl iddynt gael eu rhoi yn y system ofal. Er mai dim ond tair merch oedd yn y garfan, mae'r ffaith bod pob un ohonynt wedi dioddef camfanteisio rhywiol yn awgrymu y gallai merched sy'n agored i niwed fod â risg arbennig o uchel o ddioddef camfanteisio. Fodd bynnag, dylid profi'r dybiaeth hon gyda charfan fwy er mwyn penderfynu ar ei chywirdeb.

Amlygwyd yr arfer o gamfanteisio'n droseddol ar fechgyn yn y garfan drwy werthu a throsglwyddo cyffuriau. Roedd pedwar bachgen wedi cael canlyniad 'ar sail derfynol gadarnhaol' drwy'r Mekanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol. Rhoddwyd y canlyniad hwn oherwydd eu hamlygiad i gamfanteisio troseddol. Roedd y bechgyn hyn yn cael cymorth drwy'r gwaith treialu presennol hefyd gyda'r nod o fynd i'r afael â throsteddu cyfundrefnol difrifol yng Nghasnewydd. Fodd bynnag, dylid nodi na fyddent wedi cael cymorth tebyg oni bai am y gwaith treialu hwn. Mae hyn oherwydd bod y canlyniad cadarnhaol oddi wrth y Mekanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol yn eu hatal rhag ymuno â'r system cyfiawnder troseddol, lle gellid eu cefnogi i ymddieithrio oddi wrth weithgareddau troseddol.<sup>18</sup> Hefyd, mae tri bachgen rhwng un ar ddeg a thri ar ddeg oed yn y garfan wedi arddangos ymddygiadau sy'n dangos y gallant fynd ymlaen i gamfanteisio ar eraill.

Mae hyn yn awgrymu efallai fod deinameg rhugl rhwng dioddef camfanteisio a chamfanteisio ar eraill. O gofio bod plant sy'n agored i niwed yn cysylltu â'i gilydd yn y pen draw yn aml, naill ai mewn unedau cyfeirio disgyblion fel BAC neu mewn cartrefi preswyl i blant, mae'r risgiau a gyflwynir gan y berthynas ddwyochrog hon yn debygol o gael eu dwysáu. Manylir ar effeithiau dylanwad cyfoedion rhwng grwpiau o blant sy'n agored i niwed yn yr adran ganlynol.



## 4.4. Dylanwad Cyfoedion

Canfu'r ymchwiliad dystiolaeth gref sy'n awgrymu bod risg o gamfanteisio a gweithgarwch troseddol y garfan yn cynyddu pan fyddant yn cysylltu â chyfoedion. Fel y nodwyd eisoes, roedd y plant yn y garfan yn fwy tebygol o gymdeithasu â phlant â heriau a phrofiadau tebyg. Roedd y crynodiad hwn o blant sy'n agored i niwed yn debygol o fod yn ffactor dylanwadol sylweddol y tu ôl i ymddygiad troseddol y plant a'u hamlygiad i gamfanteisio. Roedd effeithiau cysylltu â chyfoedion ar ymddygiad troseddol fwyaf amlwg ymhlith bechgyn yn y garfan, a nodwyd bod dylanwad cyfoedion yn peri pryder ym mwyafrif yr achosion hyn. Tynnodd sylwadau oddi wrth yr holl asiantaethau partner perthnasol sylw at ddylanwad cyfoedion. Ar draws y garfan, roedd cyfnodau coll ac absenoldeb o'r ysgol yn gysylltiedig â chysylltiad â chyfoedion yn aml. Hefyd, gwnaeth nifer o adroddiadau'r heddlu a adolygwyd yn ystod yr ymchwiliad gysylltiadau

uniongyrchol rhwng cynnydd mewn troseddu a chysylltiad â chyfoedion neu droseddwy'r hysbys a oedd yn hŷn. Mae'r pryderon hyn ynghylch dylanwad cyfoedion rhwng plant sy'n agored i niwed – yn enwedig pan gânt eu casglu mewn unedau cyfeirio disgyblion a chartrefi preswyl i blant – yn codi cwestiynau ynghylch y mathau o amgylcheddau a grëir ar gyfer plant a allai deimlo'n ynysig neu blant sydd wedi eu gwahardd o'r ysgol. Trwy brosesau systemig ar gyfer diogelu a rheoli ymddygiadau heriol, mae plant sy'n agored i niwed yn canfod eu hunain yn cysylltu'n agos â'i gilydd yn aml. Fodd bynnag, mae'r cysylltiadau hyn yn arwain yn aml at gynnydd mewn troseddu ac at amlygiad i gamfanteisio. Am y rheswm hwnnw, mae angen ystyried sut y gellir cefnogi plant sy'n agored i niwed mewn modd nad yw'n cynyddu nac yn cyfrannu at eu risg o droseddoldeb neu gamfanteisio. Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn enghraifft o sut y gall cysylltu â chyfoedion waethygu'r heriau parhaus i blant sy'n agored i niwed.

## Astudiaeth Achos I I

Tair ar ddeg oed yw Plentyn 13. Yn un ar ddeg oed, dechreuodd arddangos arwyddion o ymddygiad sy'n tarfu ar eraill. Roedd ymddygiad Plentyn 13 yn heriol yn yr ysgol gynradd. Yn gynnar mewn bywyd, roedd Plentyn 13 yn dyst i gam-drin domestig gartref. Yn dilyn y digwyddiadau hyn, dechreuodd ymddygiad Plentyn 13 darfu ar eraill yn fwy, gan arwain at ymddygiad gwrthgymdeithasol lefel isel. Yn ystod gwyliau'r ysgol, cynyddodd ymddygiad gwrthgymdeithasol Plentyn 13. Cynyddodd y gweithgareddau hyn wrth i Blentyn 13 gysylltu â chyfoedion a oedd yn hysbys i Heddlu Gwent. Ar ôl i dymor yr ysgol aildechrau, gwaethgodd cyfradd bresenoldeb Plentyn 13. Ar ôl symudiad a reolwyd i ysgol arall, gostyngodd ei gyfradd bresenoldeb ymhellach. Yn ei ysgol newydd, cafodd Plentyn 13 ei wahardd sawl gwaith cyn ei atgyfeirio i Bridge Achievement Centre (BAC). Oddeutu 60% yw ei bresenoldeb yn BAC ar hyn o bryd. Ceir pryderon bod Plentyn 13 mewn perygl o gamfanteisio troseddol. Mae'r amlygiad hwn i gamfanteisio yn gysylltiedig â grŵp cyfoedion Plentyn 13.

Fel y dangosir yn yr astudiaeth achos hon, gall dylanwad cyfoedion fod yn un o nifer o ffactorau sy'n rhyngblethu sy'n arwain at ymddygiadau sy'n gwaethygu. Roedd y cyfoedion y cyfeirir atynt yn yr astudiaeth achos hon wedi eu cynnwys yn y garfan hefyd ac roedd gan bob un ohonynt ei ffactorau ei hun o ran bod yn agored i niwed. Roedd problemau a heriau'r

cyfoedion hyn yn cynnwys esgeulustod, cam-drin domestig ac anghenion addysgol arbennig. Roedd y cyfoedion dan sylw wedi cymryd rhan mewn troseddu lefel isel yn ifanc cyn gwaethygu'n raddol i ymddygiadau mwy difrifol, gan gynnwys trais, troseddau ag arfau a chamfanteisio rhywiol. Roedd gan y ddau gyfoed gofnodion presenoldeb isel hefyd ac roeddent



yn arddangos ymddygiadau heriol yn yr ysgol. Fel gyda Phlentyn 13, roedd un cyfoed wedi ei drosglwyddo i BAC. O edrych ar yr heriau a brofwyd gan gyfoedion Plentyn 13, mae'n amlwg bod cryn dipyn o drawma ac ymddygiad sy'n tarfu ar eraill wedi ei gasglu mewn un grŵp. Trwy gydol yr ymchwiliad, roedd yn amlwg bod anhawster yn amgylchedd y cartref yn ffactor dylanwadol allweddol dros gynnydd y plant mewn ymddygiad sy'n tarfu ar eraill a'r cynnydd mewn risg o gamfanteisio. Fodd bynnag, fel y gwelir yn yr astudiaeth achos uchod, mae cysylltiad â phlant eraill sy'n agored i niwed yn atgyfnerthu ymddygiadau negyddol ymhellach ac yn ychwanegu at y risg o gamfanteisio. Dyma pam yr ystyrir ei bod yn hanfodol deall swyddogaeth dylanwad cyfoedion i ddatblygu dull cynhwysfawr o fynd i'r afael â ffactorau amrywiol sy'n rhyngblethu a allai arwain at blant yn troseddu neu'n dioddef camfanteisio.

## Casgliad

### **Mae cydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng partneriaid wedi bod yn rhan annatod o'r ymchwiliad cyfan hwn.**

Mae mynd i'r afael â'r heriau a'r gwendidau cymhleth a brofwyd gan y garfan a phlant tebyg eraill y tu hwnt i gwmpas un asiantaeth. Felly, mae'n hanfodol bod partneriaid yn cydnabod y buddion i wasanaethau a phlant pan geisir atebion partneriaeth yn y lle cyntaf. Mae llawer o'r astudiaethau achos yn yr adroddiad hwn yn tynnu sylw at gyfleoedd a gollwyd i gynnal ymyriadau cynnar a chasgledig, er mwyn llywio plant oddi wrth droseddoldeb a chamfanteisio. Y gobaith yw y bydd canfyddiadau'r ymchwiliad hwn a'i argymhellion cysylltiedig yn cryfhau ymdrechion partneriaeth ymhellach ac yn lleihau cyfleoedd a gollir i blant yn y dyfodol.

Cafodd yr arsylwadau a'r dadansoddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn eu llywio gan brosesau ymchwilio cadarn a ddefnyddiwyd i ystyried yr holl wybodaeth gan bartneriaid ar draws ystod o arbenigedd. Mae mwyafrif yr arsylwadau hyn wedi eu seilio ar sylfaen dystiolaeth gadarn. Fodd bynnag, er mwyn cydnabod maint sampl llai y garfan, gwneir rhai

arsylwadau fel rhagdybiaethau gwybodus. O ganlyniad, nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys yr holl atebion, ond mae'n codi cwestiynau perthnasol ychwanegol sy'n cyfiawnhau gwaith archwilio ychwanegol. Serch hynny, ni ddylid tanbriso faint o waith a wnaed er mwyn casglu cymaint o wybodaeth am y plant hyn. Rydym yn ddiolchgar am yr ymrwymiad parhaus a ddangoswyd gan yr holl bartneriaid drwy gydol yr ymchwiliad hwn. Heb eu hymdrechion nhw, ni fyddai'r gwaith hwn wedi bod yn bosibl.

Fel y dangosir yng nghorff yr adroddiad hwn, nodwyd nifer o themâu allweddol ailadroddus ar draws y garfan. Mae'r adrannau isod yn rhoi crynodeb o bob thema ynghyd ag argymhellion. Fodd bynnag, ni all yr argymhellion hyn ddatrys yr ystod gyfan o heriau a nodwyd drwy gydol yr ymchwiliad, ac ni fyddant yn gwneud hynny. Diben yr adroddiad hwn fu cyfleu'r materion a darparu sylfaen dystiolaeth er mwyn deall yr heriau i blant sy'n agored i niwed sydd ag amlygiad i droseddoldeb a chamfanteisio. Er mwyn cymryd camau ar ganfyddiadau'r adroddiad ac ymateb ag atebion, bydd angen rhagor o waith a pherchnogaeth gan y partneriaid a gyfrannodd drwy gydol y broses hon. Fel archwiliad ôl-weithredol, rydym yn cydnabod y bydd partneriaid wedi gwneud rhai newidiadau i'w prosesau, arferion a darpariaethau. Dylid archwilio'r newidiadau hyn hefyd o'u cymharu â'r argymhellion er mwyn deall a ydynt yn mynd i'r afael yn effeithiol ag unrhyw themâu a nodir yn yr adroddiad. Cynigiwn fod y gwaith hwn yn digwydd o dan drefniadau Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gwent, gan gynnwys Grŵp Gorchwyl a Gorffen er mwyn adrodd ar y cynnydd o'i gymharu â chynllun gweithredu sydd wedi'i lywio gan yr argymhellion a ddarperir isod.

Yn ein barn ni, mae'r adroddiad hwn yn darparu sylfaen dystiolaeth ar gyfer y gwaith o ystyried polisiâu a datblygu arferion, ar lefel leol a chenedlaethol. Yn wir, i asiantaethau nad ydynt yng Ngwent, gobeithiwn y bydd yr argymhellion hyn yn cynnig man cychwyn ar gyfer profi ac archwilio'r canfyddiadau hyn yn eu hardaloedd eu hunain.

## 1) Nodweddion Allweddol

Oedran cyfartalog y plant yn y garfan oedd pymtheg mlwydd oed. Fodd bynnag, dechreuodd y plant arddangos ymddygiadau sy'n tarfu ar eraill ac ymddieithrio o'r ysgol yn llawer cynharach na hynny. I fechgyn, sef mwyafrif y garfan, yr oedran cyfartalog pan waethygodd eu hymddygiad oedd un ar ddeg mlwydd oed. Roedd y merched yn y garfan ychydig yn hŷn, gydag ymddygiad sy'n tarfu ar eraill yn dechrau pan oeddent yn dair ar ddeg oed.

Mae'r canfyddiadau hyn yn pwysleisio'r angen i fabwysiadu dull ymyrraeth gynnar ac atal i weithio gyda phlant sy'n agored i niwed sy'n wynebu heriau sylweddol. Gan ddefnyddio'r garfan o fechgyn fel enghraifft, yn y pedair blynedd rhwng un ar ddeg a phymtheg oed gwaethygodd eu hymddygiadau a chynyddodd eu hamlygiad i gamfanteisio yn raddol nes iddo fod yn destun pryder sylweddol bellach. Pe byddai cydfentrau wedi eu rhoi ar waith i gefnogi'r plant hyn gartref, yn yr ysgol neu mewn gofal, efallai y byddai'r canlyniadau hyn wedi eu hosgoi. Trwy gydol yr ymchwiliad hwn, canfuwyd bod gwasanaethau'n gweithio'n unigol yn aml, ac yn dibynnu ar wybodaeth o'u cronfeydd data mewnol eu hunain.

Yn y pen draw, mae'r dull hwn yn cyfyngu ar yr ystod bosibl o gymorth y gall gwasanaethau ei darparu i blant sy'n agored i niwed oherwydd na allant gael dealltwriaeth lawn o'r amgylchiadau a'r materion y maent yn cael profiad ohonynt mewn bywyd. Wrth geisio gwella canlyniadau i blant, dylai gwasanaethau gasglu a rhannu gwybodaeth â'r holl bartneriaid perthnasol.

Dylai pob asiantaeth ddechrau'r broses hon cyn gynted â'u bod nhw wedi nodi pryderon ynglŷn â'r plentyn. Trwy rannu gwybodaeth yn ystod yr ymchwiliad, canfuwyd nad oedd pob asiantaeth yn ymwybodol o rai plant.

Fodd bynnag, pe byddai'r holl wasanaethau wedi gwybod am y plant a'u heriau, gellid bod wedi gwneud rhagor i'w cefnogi. Mae'n rhaid i ni beidio â cholli'r cyfleoedd hyn eto.

## Argymhellion

- Dylai Llywodraeth Cymru wella diffiniad "achos sy'n peri pryder", gan gydnabod y gall yr "achosion" hyn ddigwydd ar unrhyw adeg ym mywyd plentyn a bod yn rhaid i wasanaeth ymateb iddynt.
- Dylai pob asiantaeth adolygu ei threfniadau cyfredol ar gyfer nodi'n gynnar ac atal, a rhannu gwybodaeth amlasiantaeth mewn cysylltiad â chanfyddiadau'r adroddiad hwn, gan ganolbwyntio ar p'un a ystyrir plant sy'n dioddef camfanteisio troseddol yn briodol yn y trefniadau hyn.
- Dylai gwasanaethau seicoleg barhau â'r gwaith presennol ynghylch y ffyrdd y gall profiadau o dlodi lywio neu ddylanwadu ar ymddygiadau sy'n tarfu ar eraill, a rhannu'r canfyddiadau er mwyn datblygu ymyriadau amlasiantaeth.

## 2) Trawma yn Amgylchedd y Cartref

Ar draws y garfan, gellid nodi Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynodod ym mwyafrif yr achosion a adolygwyd.

Ymhlith y Profiadau hynny, roedd bod yn dyst i gam-drin domestig gartref yn un o'r sbardunau diffiniol ar gyfer ymddygiad sy'n gwaethygu ac ymddieithrio o'r ysgol.

Yn dilyn achosion o gam-drin domestig, roedd plant yn y garfan yn fwy tebygol o arddangos ymddygiadau heriol yn yr ysgol ac yn y gymuned ehangach.

O'r herwydd, roedd y plant hyn mewn mwy o berygl o gael eu gwahardd o'r ysgol ac o gymryd rhan mewn troseddoldeb.

Arweiniodd bod yn dyst i gam-drin domestig at gynnydd mewn cyfnodau coll i'r plant hefyd, a chysylltiad dilynol â chamfanteisio.

Hefyd, ar gyfer plant a oedd wedi eu rhoi mewn gofal, dilynwyd y symud i gartref preswyl i blant yn fuan gan ymddygiadau'n gwaethygu a chamfanteisio.

## Argymhellion

- Dylai Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent arwain ymarfer cwmpasu er mwyn penderfynu pa gymorth sydd ar gael i blant y nodwyd eu bod yn dioddef cam-drin, gan gynnwys effeithiolrwydd y cymorth hwn a'r bylchau cyfredol yn y gwasanaeth a ddarperir.
- Dylai Gwasanaethau i Blant, Addysg a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen er mwyn archwilio cyfleoedd ar gyfer newidiadau i'r system gyfan a gwelliannau i wasanaethau sy'n ymwneud â chanfyddiadau'r adroddiadau. Dylid rhannu'r gwaith hwn â Llywodraeth Cymru.

## 3) Heriau mewn Addysg

Datgelodd gwybodaeth a rannwyd gan bartneriaid Addysg fod presenoldeb y garfan yn yr ysgol wedi gostwng yn sylweddol ar ôl iddynt bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Dangosodd hefyd fod presenoldeb wedi gostwng yn sylweddol yn aml ar ôl i blant symud i ysgol uwchradd newydd, yn ogystal ag yn ystod blwyddyn olaf eu haddysg. Priodolwyd gostyngiad mewn presenoldeb rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd ac ar ôl newid ysgol i golled oedolyn y gallai'r plant ymddiried ynddo. Yn gyson â'r canfyddiadau ynghylch Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, gostyngodd presenoldeb yn aml ar ôl i blant fod yn dyst i gam-drin domestig gartref. Roedd effaith y profiad o gam-drin domestig yn golygu'n aml fod ymddygiad y plant yn tarfu'n fwy ar eraill yn yr ysgol, ac o'r herwydd yn cynyddu eu risg o gael eu gwahardd. Hefyd, pan fu gwaharddiadau, gwelwyd bod y rhain wedi digwydd o fewn cyfnod byr. Yn ystod y cyfnod hwn, gwaethygodd ymddygiad y tu allan i'r ysgol nes cyrraedd troseddoldeb. Hefyd, nodwyd bod gan bob plentyn yn y garfan Anghenion Addysgol Arbennig. Roedd y canfyddiad hwn yn gyson â'r duedd genedlaethol, sef bod risg uwch i blant ag anawsterau dysgu gael eu gwahardd a chymryd rhan mewn troseddu. I lawer o blant yn y garfan, cymhlethwyd heriau Anghenion Addysgol Arbennig ymhellach gan Anghenion Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu. Pan oedd gan blant Anghenion Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu, nodwyd bod problemau penodol o ran eu gallu i integreiddio i gymunedau eu hysgol.

## Argymhellion

- Dylai'r Grŵp Newid Systemau ystyried y gofynion ar gyfer cefnogi plant sy'n agored i niwed wrth iddynt bontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd, gan gydnabod yr angen am oedolyn y gellir ymddiried ynddo i ddarparu sefydlogrwydd yn ystod y cyfnod hwn.
- Dylai'r Grŵp Newid Systemau ystyried y gofynion adnoddau ar gyfer gwasanaeth sy'n darparu cymorth oedolyn y gellir ymddiried ynddo i blant sy'n agored i niwed yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae'n rhaid teilwra'r gwasanaeth hwn er mwyn diwallu anghenion plant sydd â'r profiadau a'r trawma a nodir yn yr adroddiad hwn.
- Dylai'r Grŵp Newid Systemau adolygu'r ddarpariaeth amlasiantaeth o wasanaethau ychwanegol arbenigol i blant sy'n ei chael yn anodd mewn addysg brif ffrwd. Gellid integreiddio'r gwaith hwn ochr yn ochr â gwaith oedolyn y gellir ymddiried ynddo a chynnwys cymorth ar y safle.
- Dylai pob asiantaeth sicrhau bod y ddarpariaeth (gweler uchod) yn bodloni gofynion addysgol ac anghenion ehangach plant sy'n agored i niwed. Gallai'r dewisiadau gynnwys: cymorth yn y dosbarth, cymorth ar y safle neu ddarpariaeth amgen.
- Dylai'r adran Addysg bennu'r ffactorau cadarnhaol sy'n effeithio ar welliannau mewn presenoldeb i blant sy'n agored i niwed, gan gynnwys y rhai a ystyrir ar gyfer symudiadau ysgol a reolir. Dylid rhannu'r gwaith hwn â Llywodraeth Cymru er mwyn llywio polisiâu ynghylch symudiadau a reolir.
- Dylai'r adran Addysg weithio gyda'r adran Iechyd a phartneriaid eraill i archwilio a yw'r cymorth presennol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol plant, gan gynnwys Anghenion Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu, yn nodi yn gynnar ac yn ymyrryd, gan atal achosion o gymorth yn cael ei ohirio nes i blentyn ddod yn hysbys i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuencid a chael ei asesu ganddo.
- Dylai pob asiantaeth berthnasol adnabod ymddygiadau sy'n gwaethygu fel rhai sy'n nodweddiadol o drawma neu drallod emosiynol, a blaenoriaethu ymateb i'r trawma, yn hytrach na'r ymddygiad.
- Pan fo ymddygiad megis troseddu'n digwydd, dylai pob asiantaeth ddilyn ymateb sy'n seiliedig ar drawma a mabwysiadu'r model rheoli achosion uwch.

## 4) Troseddu a Chamfanteisio

Wrth adolygu patrymau troseddu'r plant yn y garfan, roedd yn amlwg bod gwyliau hanner tymor a gwyliau'r ysgol yn sbardunau allweddol ar gyfer ymddygiadau sy'n gwaethygu. Yn dilyn y cyfnodau hyn, gwaethygodd ymddygiad y plant a'r broses o ymddieithrio o'r ysgol yn gyflym.

O'r holl ymddygiadau troseddol, ymddygiad gwrthgymdeithasol a difrod troseddol oedd y rhagflaenwyr mwyaf cyffredin ar gyfer troseddoldeb difrifol diweddarach ar draws y garfan.

O ran camfanteisio, roedd cyfnodau coll y plant yn dangos perygl o gamfanteisio yn aml. Hefyd, canfuwyd bod profiadau o gamfanteisio wedi eu seilio'n amlwg ar rywedd. Hynny yw, roedd bechgyn yn y garfan yn dioddef camfanteisio troseddol yn aml, ac roedd y merched yn dioddef camfanteisio rhywiol.

Yn olaf, nodwyd bod dylanwad cyfoedion yn ffactor sylweddol sy'n cyfrannu at gynnydd o ran cymryd rhan mewn troseddu ac amlygiad i gamfanteisio. Yn hanfodol, nodwyd bod grwpiau cyfoedion yn cynnwys plant â heriau a gwendidau tebyg yn aml.

Yn wir, roedd yn hysbys bod gan lawer o blant yn y garfan gysylltiad agos â'i gilydd. Cododd y canfyddiadau hyn gwestiynau ynghylch sut y caiff plant sy'n agored i niwed eu grwpio gyda'i gilydd drwy d dulliau systemig o ddiogelu neu reoli ymddygiadau (h.y. mewn lleoliadau gofal neu unedau cyfeirio disgyblion).

### Argymhellion

- Dylai Gwasanaethau i Blant, Addysg a Heddlu Gwent feithrin dealltwriaeth bellach o gyfnodau coll er mwyn hwyluso gwell ymateb gan y gwasanaeth.
- Dylai Gwasanaethau i Blant ac Addysg benderfynu pa ymyriadau y gellir eu cyflwyno er mwyn rheoli effaith niweidiol cysylltiad rhwng cyfoedion sy'n agored i niwed mewn amgylcheddau a allai gynyddu eu hamlygiad i droseddoldeb neu gam-fanteisio (lleoliadau gofal neu unedau cyfeirio disgyblion).

# Matrics Profiadau Cyffredin

	Cam-drin Domestig	Esgelustod	Cysylltiad â Diogelu*	Anghenion Dysgu Ychwanegol**	Presenoldeb Isel	Gwaharddiad (au) o'r Ysgol	Lleoliad Uned Cyfeirio Disgyblion	Wedi bod mewn Gofal	Cyfnod(au) Coll	Wedi Dioddef Camfanteisio ***
Plentyn 1	X		X	X	X				X	X
Plentyn 2	X		X	X	X	X	X	X	X	X
Plentyn 3	X		X	X	X	X	X	X	X	X
Plentyn 4		X		X	X	X			X	
Plentyn 5		X		X	X	X	X	X	X	X
Plentyn 6				X	X					X
Plentyn 7				X	X	X	X			
Plentyn 8	X			X	X			X	X	X
Plentyn 9	X	X		X	X	X	X		X	X
Plentyn 10	X		X	X	X	X	X			X
Plentyn 11			X	X			X		X	X
Plentyn 12	X	X		X	X	X		X		X
Plentyn 13	X		X	X	X	X	X			X

\*Gan gynnwys camddefnyddio sylweddau gan rieni, chwalfa deuluol a phryderon ynghylch troseddu/ymddygiad gwrthgymdeithasol.

\*\* Gan gynnwys Anghenion Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu.

\*\*\* Troseddol neu Rywiol.



## Ôl-nodiadau

1. Rhannwyd yr holl wybodaeth rhwng partneriaid yn unol ag Adran 115 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998.
2. Crëir cronoleg ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc drwy system NICHE, sydd ond yn cynnwys digwyddiadau perthnasol a adroddwyd i'r Heddlu.
3. Mae System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru yn cadw gwybodaeth sy'n benodol i achosion, o'r gofrestr amddiffyn plant, atgyfeiriadau a chynlluniau cymorth.
4. Fe'i defnyddir gan bob ysgol, mae'r Proffil Asesu Bod yn Agored i Niwed yn cyfrifo lefel y risg o ymddieithrio ar sail presenoldeb, cyrhaeddiad ac ymddygiad.
5. Defnyddir Systemau Rheoli Gwybodaeth Ysgolion gan bob ysgol i gadw'r holl wybodaeth berthnasol am bob myfyriwr; defnyddiwyd hyn yn yr astudiaeth hon ar gyfer data presenoldeb.
6. Cronfa ddata sy'n cynnwys gwybodaeth amlasiantaeth am blant a gefnogir gan y Tîm Troseddwr Ifanc.
7. Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru [https://llyw.cymru/mynegai-amddifadedd-lluosog-cymru-diweddariad-llawn-ir-mynegai-gyda-graddfeydd-2019?\\_ga=2.267643016.744363712.1606119424-1896486386.1554378776](https://llyw.cymru/mynegai-amddifadedd-lluosog-cymru-diweddariad-llawn-ir-mynegai-gyda-graddfeydd-2019?_ga=2.267643016.744363712.1606119424-1896486386.1554378776)
8. Pan fo ymddygiad yn peri pryder arbennig, caiff plant eu hatgyfeirio i BAC ar gyfer ymyriadau tymor byr neu hir cyn ailintegreiddio i ysgol brif ffrwd.
9. Ceir rhagor o fanylion am anawsterau lleferydd a dysgu fel ffactor risg wrth ddod i gysylltiad â throseddoldeb a cham-fanteisio yn Adran 3 yr adroddiad hwn.
10. Gweler <https://www.rsph.org.uk/our-work/resources/rhwydwaith-dysgu-camau-cynnar-gyda-n-gilydd.html> am gorff eang o ymchwil sy'n manylu ar effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.
11. Menter lle mae Heddlu Gwent yn rhannu gwybodaeth â staff ysgol penodedig yn dilyn digwyddiad o gam-drin domestig gartref yw Operation Encompass.
12. Roedd anghenion dysgu yn cynnwys Anghenion Addysgol Arbennig, â datganiad neu heb ddatganiad, ar gam Gweithredu gan yr Ysgol neu Weithredu gan yr Ysgol a Mwy.
13. Ystadegau ar gyfer Cymru, Gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol o ysgolion yng Nghymru, 2016/17 (2018).
14. Mae adroddiad diweddar am gam-fanteisio'n droseddol ar blant, a gyhoeddwyd gan y Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant, yn nodi bod angen ymyriadau sy'n seiliedig ar gryfderau ac a ysgogir gan berthnasau ar blant sydd mewn perygl o ddiodef cam-fanteisio. Mae'r canfyddiad hwn yn adleisio'r awgrym y dylai gwasanaeth fod ar waith i ddarparu perthynas y gellir ymddiried ynddi i blant sy'n agored i niwed sy'n pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. I gael rhagor o fanylion, gweler y Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant, It Was Hard to Escape: Safeguarding Children at Risk of Criminal Exploitation (2020), t. 28.
15. Ymyriad lle mae'r ysgol yn darparu cymorth ychwanegol neu ymyriadau sy'n ychwanegol at y cwricwlwm rheolaidd neu ar wahân iddo yw Gweithredu gan yr Ysgol. Parhad o'r cymorth hwn ond gyda'r elfen ychwanegol o gymorth a ddarperir gan wasanaethau arbenigol y tu allan i'r ysgol yw Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy.

16. Gweler Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, Practice Advice: Speech, Language and Communication Needs in the Youth Justice System <https://www.gov.uk/government/publications/speech-language-and-communication-needs-in-the-youth-justice-system/practice-advice-speech-language-and-communication-needs-slcn-in-the-youth-justice-system> (2015).
17. Fel y nodwyd uchod, mae'r cynnydd hwn mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ystod gwyliau'r ysgol yn gyson â thueddiadau ehangach a gofnodir gan Heddlu Gwent. Y ffactor gwahaniaethol i blant yn y garfan yw bod yr ymddygiad troseddol hwn wedi gweithredu fel sbardun ar gyfer gwaethygiad ychwanegol ac ymddieithrio yn yr ysgol.
18. Mae'r mater hwn gyda'r broses Mekanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol yn cael ei gamddefnyddio'n aml gan y rhai sy'n camfanteisio'n droseddol ar blant. O ganlyniad i hyn, anogir plant i nodi eu hunain fel dioddefwyr camfanteisio fel na ellir eu herlyn mwyach am weithgareddau troseddol, a fyddai'n caniatáu i bobl eu camfanteisio ymhellach.

